# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2023**

**TGAU**
**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3**
**3020U30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## TGAU CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3

## CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2023

**ADRAN A**

**A1:** Y Cae Ras

Llenwi grid gyda'r wybodaeth gywir – 1 marc yr un

- 1877
- Unrhyw 2 o'r canlynol – gemau rygbi / criced / pêl-droed / rasio (ceffylau) / cyngerdd
- (www.)caeras.co.uk

**A2:** Hoff Chwaraeon

Labelu'r siart – 1 marc yr un

- 50% - rygbi
- 25% - pêl-droed
- 20% - nofio
- 5% - sglefrio iâ

**A3:** Cwmnïau dillad Cymru

(a) Enwi'r cwmni – 1 marc yr un

i. Howies (3)
ii. Sgrym (1)
iii. Celtes (2)

(b) Gwybodaeth gywir ac anghywir – 1 marc yr un

i. Anghywir
ii. Cywir
iii. Cywir
iv. Cywir


Ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**A4**

(a) Llenwi'r grid – 1 marc yr un

| DYDDIAD | LLEOLIAD | AMSER | PRIS |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 10 / Tachwedd deg / tachwedd 10/ deg | Neuadd y Brenin / Llandre | 7.30 / hanner awr wedi saith | £18 / un deg wyth punt / deunaw punt / 18 |

(b) Dewis y 3 llun addas fydd ar gael yn y sioe = 3 marc

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
| **dillad babanod** | **siwmperi Nadolig** | **dillad traeth** |

(c) Ydych chi'n hapus gyda phris y tocyn?

- Ydw / Nac ydw / Ateb synhwyrol sy'n ramadegol gywir = 1 marc

(ch) Rheswm

- Un rheswm – hyd at 2 farc
  Rheswm Sylfaenol = 1 marc e.e. Mae'r pris yn rhesymol
  Rheswm estynedig = 2 farc e.e. Does dim problem gyda'r pris achos mae'n cynnwys bwffe.

**A5:** Cyfieithu – 10 marc (1 marc am bob ymadrodd / gair)

Dyma'r cyfieithiadau awgrymedig ar gyfer yr ymadroddion gwahanol ond edrychir ar atebion posibl eraill yn ystod y cyfarfod marcwyr.

- Diolch / Diolch yn fawr
- (am) helpu / (am) eich help
- Roedd y noson / nos / noswaith
- yn anhygoel / yn arbennig / yn fendigedig / yn wych
- Rydyn ni wedi / Dyn/Dan ni wedi/ Codon ni / Wnaethon ni / Gwnaethon ni
- codi £5000 / gwneud £5000
- (i'r) ysbyty / ysbyti
- Cliciwch (ar) / Clicwch (ar) / Ymwelwch (â) / Ewch (at) (rhaid cael y gorchmynnol yma)
- am fwy / am mwy
- o wybodaeth / gwybodaeth

1 marc ychwanegol yn bosibl am unrhyw 2 o'r geiriau canlynol: / noson / nos / noswaith / roedd / rydyn ni / rydyn / rydym / clicio / clic / mwy / fwy / Ymweld / e.e.bendigedig / gwych / wych / fendigedig / gyffrous (unrhyw ansoddair cadarnhaol heb yr 'yn')

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**B6: Llety gwyliau**

(a) Ffurfio 2 gwestiwn am aros mewn yurt
Unrhyw gwestiynau synhwyrol – 1 marc yr un e.e. Oes tŷ bach yn yr yurt? Sawl person sy’n gallu cysgu mewn yurt? Oes teledu yno?

(b) Nodi beth sy’n wahanol am yr yurt a’r garafan – 2 farc
e.e. 5 yurt a 15 carafan neu
Mae’r yurt yn y coed ond mae’r maes carafannau ger y llyn.

(c) Ble hoffech chi aros
Yurt /carafan / Glan Mydyr / Aberaeron / Ceredigion / Parc Ger y Llyn / Aberhonddu / Powys – 1 marc

(ch) Ffurfio barn = hyd at 4 marc
Rhesymau = hyd at 4 marc
Rheswm Sylfaenol = 1 marc e.e. Achos mae’n wych / Dw i’n hoffi pysgota.
Rheswm estynedig = 2 farc e.e. Mae ci gyda ni ac mae’r ci yn gallu aros yn yr yurt. Copïo deallus o’r testun = 1 marc yn unig

**B7: 10 marc** – Cywiro neges i’r staff

1 marc yr un am gywiro pob camgymeriad. Nid oes rhaid i’r atebion canlynol fod mewn trefn.

1. Hoffwn
2. merch / o ferched
3. grŵp
4. mwynhau
5. ac
6. berffaith
7. Oes / Ydy’r
8. ?
9. Hydref / hydref
10. ydy / yw

© WJEC CBAC Cyf.

**B8:** Aros mewn Yurt

(a) 3 pheth positif o'r sylwadau
Unrhyw 3 phwynt – 1 marc yr un, hyd at 3 marc
Roedd yn wahanol / roedd yn brofiad / roedd yn arbennig / roedd pawb yn hoffi'r gwyliau / anghofio am y traffig yn y ddinas / gwyliau bendigedig / y plant yn anghofio am y teclynnau technoleg / yn dda i'r teulu / teulu yn siarad gyda'i gilydd / yn wych / mwynhau cwmni'r teulu / pawb yn mwynhau / seiclo gyda'r teulu/ gallu chwarae gemau / cerdded a seiclo / gwyliau gwahanol / mae'n wahanol

(b) Pwynt positif a phwynt negyddol am fod heb y ffonau symudol: 2 farc yr un
Pwynt positif e.e. – anghofio am y dechnoleg / mwynhau cwmni y teulu / yn dda i'r teulu (2 farc)
Pwynt negyddol e.e. – hen ffasiwn / plant ddim yn hapus / dim yn gallu siarad gyda'r bobl yn y gwaith / dydy'r ffonau ddim yn gweithio / dim gwaith (2 farc)
Nid oes rhaid i'r ateb ddod o'r darn.

(c) Dewis 4 sylw i'w rhoi ar wefan – o leiaf 3 gair ym mhob sylw: 4 marc posibl
Sylwadau posibl = 1 marc yr un: e.e. Roedd yn wahanol / roedd yn brofiad gwych / roedd pawb yn hoffi'r gwyliau / roedd yn braf i anghofio am y traffig / am wyliau bendigedig / roedd yn dda i ni fel teulu / Hoffen ni ddod eto / roedd y penwythnos yn wych / pawb yn mwynhau / cerdded a seiclo / gallu chwarae gemau. (Adborth pobl sy wedi bod yno sydd ei angen nid pobl fydd yn mynd yno yn y dyfodol.)

**B9:** Gwahardd Ffonau Symudol

(a) Ateb cwestiynau: 6 marc (1 marc am bob ateb cywir)
(i) Canada (1 marc) Ffrainc (1 marc)
- Unrhyw ateb synhwyrol yn bosibl yma (ii), (iii), (iv):

(ii) e.e.Oes / Nac oes / dim o gwbl / efallai (1 marc)
(iii) e.e.Bydd / Na fydd (1 marc)
(iv) e.e.Ydw / Nac ydw (1 marc)

(b) Ymateb synhwyrol i broblem y bwlio – hyd at 2 farc
e.e. Mae bwlio yn broblem fawr – mae'n ofnadwy: 1 marc
Yn fy marn i mae bwlio yn broblem ofnadwy yn enwedig gyda bechgyn Blwyddyn deg: 2 farc

(c) 3 phwnc posibl sy'n defnyddio technoleg – 3 marc
Unrhyw atebion synhwyrol e.e. celf, cerddoriaeth, gwyddoniaeth, technoleg gwybodaeth, Ffrangeg, chwaraeon (1 marc yr un)

(ch) Nodyn at lywodraethwyr yr ysgol – hyd at 5 marc
- Pwrpas y graff (1)
- Barn y rhieni a barn y bobl ifanc (2)
- Barn bersonol (2)

**ADRAN C**

**C10: Ysgrifennu – 20 marc**

Erthygl ar ffasiwn i'r cylchgrawn ysgol
Llythyr at y cyngor lleol yn gofyn am grant

Thema nesaf y cylchgrawn ysgol ydy "Ffasiwn". Mae'r golygydd wedi gofyn i chi ysgrifennu erthygl fer ar ffasiwn pobl ifanc heddiw a'i broblemau.
Cynnwys:

- eich rheswm dros ysgrifennu (1)
- cyflwyniad i ffasiwn pobl ifanc (2)
- problemau ffasiwn i bobl ifanc e.e. cost (3)
- eich barn bersonol ar ffasiwn heddiw (3)
- diwedd priodol (1)

Llythyr at y cyngor lleol yn gofyn am grant
Rydych chi'n trefnu trip penwythnos i'r clwb ieuenctid. Rydych chi'n ysgrifennu llythyr at y cyngor lleol yn gofyn am grant.
Cynnwys:

- eich rheswm dros ysgrifennu (1)
- gwybodaeth am y clwb ieuenctid (2)
- gweithgareddau'r trip penwythnos (3)
- manteision y trip i aelodau'r clwb (3)
- diwedd priodol (1)
- ** Dim ond 1 marc sy'n gallu cael ei wobrwyo am restru atebion e.e. 'Achos mae'n wych ac yn hwyl ac yn rhad.'

**ADRAN C: Ysgrifennu** **[20]**

**C10** **Naill ai:** Erthygl ar ffasiwn

**Neu:** Llythyr at y cyngor lleol

| **CYNNWYS** | | **MYNEGIANT** | |
|---|---|---|---|
| **Band 5**<br><br>**9-10 marc**<br>Rhaid cynnwys 3 phwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2 a 3 | • **Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus**<br>• **Amrywiaeth eang o syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn**<br>• **Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol** | **Band 5**<br><br>**9-10 marc** | • Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir<br>• Sillafu ac atalnodi cywir |
| **Band 4**<br><br>**6-8 marc**<br>Rhaid cynnwys 3 phwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2 neu 3 | • **Cynllunio amlwg a dilyniant priodol**<br>• **Peth amrywiaeth o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn**<br>• **Gwaith diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol** | **Band 4**<br><br>**6-8 marc** | • Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb<br>• Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan<br>• Sillafu ac atalnodi eithaf cywir |
| **Band 3**<br><br>**3-5 marc**<br>Rhaid cynnwys 2 bwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2 neu 3 | • **Ôl cynllunio a dilyniant gweddol naturiol**<br>• **Digonol o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan**<br>• **Gwaith gweddol ddiddorol sydd yn llwyddo i gadw ein diddordeb** | **Band 3**<br><br>**3-5 marc** | • Cyfathrebu'n weddol rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir |

© WJEC CBAC Cyf.

| CYNNWYS | | MYNEGIANT | |
|---|---|---|---|
| **Band 2**<br><br>**1-2 marc**<br>Rhaid cynnwys cyfeiriad at o leiaf 1 pwynt bwled | • **Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu yn synhwyrol**<br>• **Arwynebol iawn o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn sylfaenol iawn gan gynnig ambell reswm syml**<br>• **Gwaith gweddol ddiddorol** | **Band 2**<br><br>**1-2 marc** | • Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb. Peth cywirdeb o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presenno<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn weddol gywir |
| **Band 1**<br>**0 marc** | • **Ymateb amhriodol neu heb ymateb** | **Band 1**<br>**0 marc** | • Mynegiant amhriodol neu heb ymateb |



© WJEC CBAC Cyf.